



100
1922 - 2022

Nadolig Llawen I Chi Gyd

**Brysiwch lawr y grisiau
Syllwch ar bresantau
Beic mawr coch ac aur
Doli ddel i Mair.
Teulu a pherthnasau
A ffrindiau i gyd yn cwrdd
Mae'r twrci 'leni werth ei weld
Eisteddwch wrth y bwrdd.**

**Nadolig Llawen i chi gyd
I deulu mawr y byd
Ynghanol sŵn y dathlu
A oes 'na le i'r lesu
Neu ydi'r llety'n llawn o hyd?**

**Brysiwch at ei breseb
Sylwch ar ei wyneb
Yn y gwely gwair
Iesu faban Mair
Doethion a bugeiliaid
Yn addoli yno ynghyd
Gadewch i ninnau fynd i'w weld
A phlygu wrth ei grud**

**Nadolig Llawen i chi gyd
I deulu mawr y byd
Ynghanol sŵn y dathlu
A oes na le i'r lesu
Neu ydi'r llety'n llawn o hyd?**